**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gafodd ei gynnal Ddydd Llun, 12 Tachwedd 2019 am 5pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn bresennol: -**

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd W Jones

**Swyddogion yn bresennol**

Mr C Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth- Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Iechyd y cyhoedd, gwasanaethau Diogelwch y Gymuned
Mr A Perry, Uwch swyddog diogelwch iechyd

**Aelod Cyfetholedig yn bresennol**

Mr J Fish – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr wedi'i ethol â'r hawl i bleidlais

## 20 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

## 21 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Bonetto, H Boggis, J Harries, E Stephens, M Griffiths a P Jarman.

## 22 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd canlynol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfodydd canlynol:-

- Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 3 Medi 2019;
- Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019.

## 23 Adroddiadau er gwybodaeth

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, at fformat newydd yr agendâu Craffu ar gyfer y dyfodol, sy'n cyflwyno'r eitemau perthnasol i'w hadrodd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth. Bydd yr adran hon yn cynnwys eitemau fel adroddiadau gwybodaeth y mae modd eu cyrchu trwy ddolen i'r dudalen we bwrpasol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi unrhyw faterion i'w hadrodd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r meysydd heriol fel yr amlygwyd yn 5.4 yr adroddiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cael cyfrifoldeb am graffu yn drawsbynciol ar thema'r Gymraeg, ac y byddai'n ystyried y meysydd hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 24 Adborth – Gwaith cyn y cam Craffu

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, yr Aelodau at yr eitem Adborth – Gwaith cyn y cam Craffu ar yr agenda fel cyfle i dynnu sylw at ymateb y Cabinet i'r ymarfer cyn-graffu a roddwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Roedd y cyfle cyn-graffu yn golygu bod modd ymgorffori sylwadau Aelodau mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol drafft yn y fersiwn derfynol, a ystyriwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2019.

Dangosodd yr adroddiad ar eitem Adborth – Gwaith cyn y cam Craffu fod Craffu wedi bod yn effeithiol wrth ddylanwadu ar Gynllun Corfforaethol drafft y Cyngor, a'i fod yn atgyfnerthu'r broses graffu.

Canmolodd yr Aelod Cyfetholedig Brif Weithredwr y Cyngor am wrando ar sylwadau ac adborth y Pwyllgor Craffu, gan fod y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed, os nad pob un, wedi'u hymgorffori yn fersiwn derfynol y Cynllun Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD** cydnabod canlyniad y cyfle cyn-graffu a roddwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu drwy'r Hysbysiad Penderfyniad Cabinet atodol.

## 25 Adolygiad o Raglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2019/20

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau a Chyfathrebu Democrataidd, ei adroddiad sy'n amlinellu'r Rhaglen Waith Trosolwg a Chraffu am y chwe mis nesaf - rhwng Ionawr 2020 ac Ebrill 2020. Gofynnwyd i'r aelodau adolygu'r rhaglen waith sydd ynghlwm wrth yr adroddiad a nodi unrhyw eitemau yr hoffent eu cynnwys  yn ogystal â mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at y rhaglen waith er mwyn darparu ar gyfer cyfleoedd cyn-graffu ac eitemau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol.

Yn dilyn adolygiad Craffu a gynhaliwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac, wedi hynny, ei gyflwyniad i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Gorffennaf 2019, cynigiwyd a chytunwyd y byddai rhaglenni gwaith y dyfodol yn symlach ac yn cynnwys llai o eitemau er mwyn caniatáu adolygiadau manylach o bynciau ac atgyfeiriadau posibl gan y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a ffynonellau eraill. Byddai'r hyblygrwydd yma hefyd yn galluogi'r Pwyllgor i ymateb i faterion sydd ar y gweill. Adroddwyd bod nifer o sesiynau ymgysylltu â'r Cabinet/Craffu wedi'u cynnal trwy gydol mis Hydref, a lywiodd y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau fod sesiwn hyfforddi craffu wedi'i chynnal yn ddiweddar, wedi'i hwyluso gan Dr Dave McKenna a'i bod yn atgoffa pe bai unrhyw Aelodau angen hyfforddiant pellach i ddatblygu eu datblygiad, byddai ar gael trwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth yr Aelodau y bydd gofyn iddynt nodi meysydd i'r cyhoedd allu eu dewis trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn gwella ymgysylltiad y cyhoedd o ran proses graffu'r Cyngor. Bydd hyn yn gwneud y Pwyllgor Craffu yn fwy gweledol i drigolion RhCT ac, yn y dyfodol, bydd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i ymgysylltu â'r rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa'r Aelodau fod y Cyngor wedi ymdrechu i ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion megis gwella tudalennau gwe'r Cyngor a mynd â chraffu i leoliadau heblaw lleoliadau'r Cyngor. Awgrymodd un Aelod y gallai lleoliad Pencadlys y Cyngor rwystro'r cyhoedd rhag dod i gyfarfodydd Craffu, er y cydnabuwyd bod eitemau o ddiddordeb i'r cyhoedd yn eu denu nhw i gyfarfodydd y Cyngor.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r gwaith o gyflwyno cyfleusterau gweddarlledu yn y dyfodol, yn ogystal ag uwchraddio'r cyfleusterau sydd ar gael i Aelodau yn y Siambr. Bydd hyn yn cefnogi rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig pobl iau. Cytunodd yr aelodau bod angen meithrin pobl ifainc ysbrydoledig i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth trwy ein hysgolion a'n mentrau, a hynny gan ddefnyddio ffug etholiadau, ymarferion 'bod yn gynghorydd am ddiwrnod' a chraffu ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Ar ôl trafod y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol **PENDERFYNWYD**: -

1. Cytuno ar y rhaglen waith Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2019/2020; a

2. Cytuno i gynnwys hyblygrwydd i'r rhaglen waith i ddarparu ar gyfer cyfleoedd cyn craffu yn y dyfodol, yn ogystal ag eitemau a gynhyrchir trwy ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol.

## 26 Dolenni Ymgynghori

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu at yr eitem newydd ar yr agenda, sef 'Dolenni Ymgynghori', sy'n rhoi cyfle i Aelodau weld yr ymgynghoriadau diweddar (a gylchredwyd i'r holl Aelodau yn fisol gan y Swyddog Ymchwil Craffu Graddedig).

Yn dilyn ymholiad gan Aelod mewn perthynas â dyrannu'r dolenni ymgynghori perthnasol o dan y Pwyllgor craffu unigol yn y dyfodol er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r Aelodau nodi'r ymgynghoriadau agored priodol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu, cytunwyd y gallai hyn gael ei newid yn y dyfodol. Dywedodd Aelod arall y byddai derbyn gwybodaeth am ymatebion ar draws y Cyngor i ymgynghoriadau penodol yn ddefnyddiol.

**PENDERFYNWYD** cydnabod y dolenni ymgynghori a ddarperir.

## 27 Adolygiad o'r Asesiad Risg Tân

Derbyniodd y Pwyllgor drosolwg o weithdrefnau a phrosesau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg tân, a gofynnwyd iddynt ystyried yn benodol a oedd y camau a amlinellwyd yn yr adroddiad wedi mynd i'r afael yn ddigonol ag ymholiadau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2018. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd

yr Aelodau y byddai modiwl E-ddysgu yn cael ei ddatblygu i bob rheolwr safle ymgymryd ag ef a'i gwblhau trwy wefan Source y Cyngor, ac y byddai'r cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl.

Ar ôl ystyried nifer o opsiynau ar gyfer symud ymlaen â'r modiwl E-ddysgu, cynigiwyd y dylid datblygu model 'mewnol' a'i uwchlwytho ar wefan Source RhCT a nodi'r angen i ddylunio dau fodiwl ymhellach, y naill ar gyfer cwrs ymwybyddiaeth diogelwch cyffredinol i'r holl weithwyr ei gwblhau, a'r llall yn benodol ar gyfer rheolwyr safle fel rhan o'u datblygiad parhaus. Mae'r ddau bellach ar waith ac yn 'fyw' ar wefan Source RhCT ers 31 Hydref 2019.

Cododd yr aelodau nifer o ymholiadau a phryderon ac fe ymatebwyd iddynt fel a ganlyn: -

• A ddylai'r E-ddysgu fod yn orfodol er mwyn sicrhau bod yr holl weithwyr a rheolwyr Safle yn cydymffurfio'n llawn? Ar hyn o bryd mae'r modiwl ymwybyddiaeth gyffredinol i weithwyr yn ddewisol a'r bwriad yw gwneud y modiwl i Reolwyr Safle yn orfodol;

• Sut mae ein hysgolion yn gymwys i ddelio â thân o ystyried y buddsoddiad diweddar a gyflwynwyd trwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif? Gwaith dylunio adeiladau effeithiol, Asesiadau Risg Tân, systemau ysgeintio, gweithdrefnau diogelwch tân a threfniadau rheoli cadarn, prosesau adolygu blynyddol yr Asesiadau Risg Tân a gwiriadau rheolaidd trwy adrodd ar archwiliadau er mwyn sicrhau y cedwir at ganllawiau llym;

• Sut mae eiddo gwag/adeiladau'r Cyngor yn cael eu hamddiffyn rhag tân? - Trwy deledu cylch cyfyng a'r Gwasanaeth Gwarchod ar ran Eiddo'r Cyngor yn ogystal â larymau i amddiffyn asedau'r Cyngor;

• Pwy sy'n atebol am reoli'r holl faterion sy'n ymwneud ag asesiadau / hyfforddiant risg tân yn ein hysgolion ac a oes modd nodi rhywbeth yn ffurfiol i egluro'r cyfrifoldebau? - Y Pennaeth, y Corff Llywodraethu a Chyngor RhCT, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am reoli diogelwch tân yn yr ysgol; Mae modd gweld eglurhad o'r cyfrifoldebau ym mholisïau HS1 (Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol) a HS20 (Polisi Tân).

• A yw hapwiriadau yn cael eu cynnal mewn ysgolion ac yn adeiladau'r Cyngor yn rheolaidd? -Nac ydyn, mae pob ymweliad ag ysgolion ac adeiladau eraill y Cyngor wedi'u trefnu ymlaen llaw;

• A yw'r aseswyr risg tân y garfan diogelwch tân yn ymweld â'r un ysgolion/adeiladau'r Cyngor i ymweld bob blwyddyn ar yr un pryd? Gallai hyn feithrin hunanfoddhad. - Ar hyn o bryd, mae aseswyr risg tân yn ymweld â'r un eiddo ac adeiladau i'w hasesu, ond maent yn broffesiynol ac yn gymwys yn eu gwaith ac yn cynnal asesiadau trylwyr i safonau perthnasol sydd byth yn peri pryder o ran hunanfoddhad;

• Sut mae eiddo HMO/Landlord Preifat yn cael eu hasesu ar gyfer peryglon tân? - Mae yna ddeddfwriaeth ar gyfer pob eiddo ar rent gyda'r gyfran uchaf o gamau gorfodi yn cael eu cymryd ar gyfer achosion o beidio â chydymffurfio â rhagofalon tân. Does dim cysylltiad uniongyrchol â Safonau Tai a thalu Budd-dal Tai (Credyd Cynhwysol bellach) ond mae'r Cyngor yn gallu arfer rheolaeth dros eiddo rhent preifat a gynigir i gleientiaid digartref trwy asesu'r tai yn llawn i nodi a datrys unrhyw beryglon tân ar unwaith, yn ogystal â pheryglon cysylltiedig eraill,

cyn cytuno ar denantiaeth.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD**:-

1. Cydnabod cynnwys yr adroddiad;
2. Ymgorffori'r modiwlau E-ddysgu sydd newydd eu datblygu ym mhob cwrs ar gyfer sefydlu gweithwyr newydd;
3. Y caiff 'hapwiriadau' eu cynnal mewn ysgolion ac adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, yn ogystal â'r asesiadau diogelwch tân rheolaidd a drefnwyd ymlaen llaw, er mwyn sicrhau cydymffurfiad llawn;
4. Bod aseswyr risg tân y Cyngor yn gyfrifol a, gynnal asesiadau risg tân mewn ysgolion ac adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor ar sail cylchdro er mwyn atal cynefindra a hunanfoddhad posibl; a
5. Mae adroddiad pellach yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn pedwar mis i sicrhau bod y camau a godwyd gan Aelodau Craffu yn cael eu rhoi ar waith.

**28 Trosedd ac Anrhefn**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd adroddiad diweddaru yn unol â chais Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2019, pan wnaethant benderfynu bod angen gwybodaeth ac eglurhad pellach ynglŷn â phob un o flaenoriaethau Cynllun Cyflenwi Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018-21, yn ogystal â derbyn data ansoddol a'r mesurau o fewn y chwe blaenoriaeth strategol. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd gallu mesur p'un a yw cymunedau RhCT yn teimlo'n ddiogel o ganlyniad i'r gweithredoedd, ac a ydyn nhw'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Teimlai'r Pwyllgor y byddai cael gwybodaeth ychwanegol am effeithiau'r gweithredoedd o fewn pob un o'r blaenoriaethau yn eu cynorthwyo i nodi pa faterion o fewn Cynllun Cyflenwi Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018-21 y maent am graffu arnynt yn fwy manwl.

Er mwyn cynorthwyo Aelodau gyda'u dewis o bynciau i'w craffu ymhellach, tynnodd y Cyfarwyddwr, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Chymunedau sylw at rai o'r meysydd allweddol yn y Cynllun Cymunedau Diogel: -

Trais yn erbyn Menywod / Cam-drin Rhywiol / Domestig - Oherwydd newidiadau rheoliadol diweddar mae'r agenda bellach yn llawer ehangach, ond mae'n parhau i fod yn drosedd sylweddol a dim ond cyfran fach o'r angen y gall gwasanaethau ymateb iddo. Mae'r ffocws wedi symud o'r gwaith ataliol i fynd i'r afael â'r angen uniongyrchol ac acíwt.

Trais Difrifol a Phobl Agored i Niwed - Cyfeiriad arbennig at y gangiau cyffuriau 'Llinellau Cyffuriau' o ddinasoedd mawr yn ehangu eu gweithgarwch i drefi llai, gan ddefnyddio trais yn aml i yrru delwyr lleol allan a cham-fanteisio’n rheolaidd ar blant a phobl agored i niwed i werthu cyffuriau. Mae Partneriaethau Cymunedol yn ymateb i'r bygythiad yma ledled y Fwrdeistref Sirol.

Trafododd yr aelodau y chwe maes blaenoriaeth yn eu tro a gofyn am eglurhad ynglŷn â sut mae ein cymunedau yn dawel eu meddwl yn dilyn trosedd ddifrifol yn eu cymuned. Esboniodd y Cyfarwyddwr y broses ar gyfer y troseddau difrifol hynny, sy'n brin yn RhCT, ond mewn ymateb i'r troseddau mwyaf arwyddocaol,

yn enwedig achosion o ladd yn y cartref, mae'r ymateb yn cynnwys adolygiad a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth Cymunedau Diogel i nodi gwersi a ddysgwyd, cyhoeddi adroddiadau a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith.

Nododd Aelod fod troseddau lefel isel yn peri mwy o bryder i breswylwyr, gyda nifer cyfyngedig yn rhoi gwybod amdanyn nhw rhag ofn iddyn nhw brofi ôl-effeithiau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer preswylwyr hŷn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau nodi a dewis dau o linynnau Cynllun Cyflenwi Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf i'w hystyried ymhellach er mwyn craffu'n briodol ar y materion a sicrhau canlyniadau diriaethol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Chymunedau y gellir ystyried unrhyw feysydd nad ydynt yn cael eu dewis ond sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor fel adroddiadau gwybodaeth megis yr arolwg canol tref (a godwyd gan Aelod mewn perthynas â chraffu ar ddiogelwch yng nghanol y dref) ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lefel isel.

Cytunodd yr holl Aelodau fod llawer o'r pynciau'n gysylltiedig ag elfennau trawsbynciol, yn enwedig 'Llinellau Cyffuriau', sy'n effeithio ar gymunedau am lawer o wahanol resymau. Nododd yr Aelodau hefyd yr angen i wella cyfathrebu, sy'n thema sydd wedi codi dro ar ôl tro, fel y dangosir yn y crynodeb o'r camau a gododd o'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a thrigolion, a dylid eu hystyried ym mhob un o'r pynciau a ddewiswyd ar gyfer craffu pellach.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**
1. Cydnabod y data ansoddol a'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adroddiad wedi'i ddiweddaru; a
2. Dewis 'Llinellau Cyffuriau ac Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed' a 'Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol' fel pynciau i wynebu craffu pellach o fewn Cynllun Cyflenwi Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf yn y Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn sydd i'w gynnal ym mis Mawrth 2020.

29 **Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am ei ymateb cadarnhaol mewn perthynas ag eitemau a ystyriwyd heddiw a'r argymhellion a gyflwynwyd.

Cyfarfod nesaf: - Atgoffwyd yr aelodau y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei gynnal ar 2il Rhagfyr 2019 am 5pm yn Siambr y Cyngor i ystyried yr eitemau fel y'u cynhwysir ar y Rhaglen Waith

**Daeth y cyfarfod hwn i ben am 7.05pm** **Y Cynghorydd M Adams**
**Cadeirydd**